**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 17 Chwefror 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Mike Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr)**
M B Lewis

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Michaela Jones | Mark Rees |
| Janet Pardue-Wood | Margaret Williams |

**Cynrychiolydd Cyngor Cymuned/Tref**
Y Cynghorydd Carlo Rabaiotti

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd C A Holley
Y Cynghorydd R C Stewart

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L G Thomas

---

### 35 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 36 Dyletswydd Arweinwyr y Grwpiau.

Fel rhan o'r dyletswyddau newydd ar gyfer Arweinwyr Grŵp fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cytunodd y Pwyllgor Safonau i gwrdd ag Arweinwyr Grŵp gwleidyddol i drafod sut y maent yn cynnal safonau uchel o ymddygiad o fewn eu grŵp.

Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp gyflwyno templed wedi'i gwblhau i'r Pwyllgor Safonau cyn y trafodaethau (gweler Atodiad A).

Yn ogystal â'r templedi wedi'u cwblhau, gwahoddodd y Pwyllgor y Cynghorwyr Rob Stewart (Llafur) a Chris Holley (Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol ac Annibynnol) i'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 20 Chwefror.

Yn anffodus, nid oedd y Cynghorydd Lyndon Jones yn gallu bod yn bresennol ar yr achlysur hwn a byddai dyddiad amgen yn cael ei drefnu ar ei gyfer ef a'r Cynghorydd Peter May.

Darparodd y Cynghorwyr Stewart a Holley yr wybodaeth ategol ganlynol yn ystod trafodaethau:

<u>Y Cynghorydd Rob Stewart</u>

- Hyfforddiant

Dywedodd y Cynghorydd Stewart, o ran y ddyletswydd newydd, nad oedd yn ffordd newydd o weithio i Gyngor Abertawe oherwydd ei fod wedi bod yn gweithredu'r system hon ers cryn amser, fodd bynnag, croesawodd ffurfioli'r broses.

Darparodd y Grŵp Llafur hyfforddiant i aelodau ei grŵp, a oedd yn rhedeg ochr yn ochr â Rhaglen Hyfforddi Cynghorwyr a ddarperir gan yr awdurdod. Trefnwyd sesiynau rheolaidd o fewn y grŵp gan gynnwys sesiynau hyfforddiant gloywi.

Er bod y templed yn nodi nad oedd pob Cynghorydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Côd Ymddygiad, esboniodd fod cofnodion o'r hyfforddiant wedi'u hanfon ymlaen at y rheini nad oeddent yn bresennol ar gyfer sesiynau hyfforddi corfforol, fodd bynnag, roedd diweddaru eu cofnodion ar-lein yn dibynnu ar y cynghorwyr hynny'n rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd am yr wybodaeth. Felly, efallai nad yw'r rhestr 100% yn gywir, fodd bynnag, roedd yn mynd i'r afael â hwn gyda'r Swyddog Monitro a'r Gwasanaethau Democrataidd. Roedd recordiadau o sesiynau hyfforddi ar gael i unrhyw Gynghorwyr gael mynediad atynt yn ôl yr angen. Dywedodd hefyd fod yn rhaid i rai o'r Cynghorwyr gwblhau hyfforddiant gorfodol i eistedd a phleidleisio ar bwyllgorau penodol fel y pwyllgor Trwyddedu a Chynllunio.

Dywedodd y Cynghorydd Stewart y darparwyd adborth ar hyfforddiant i'r Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd hefyd er mwyn gwella'r broses ar gyfer rhaglenni hyfforddi/sefydlu yn y dyfodol.

- Problemau gyda'r Côd Ymddygiad

Dywedodd y Cynghorydd Stewart fod nifer y problemau gyda'r Côd Ymddygiad a godwyd yn brin iawn, gyda nifer yr atgyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn isel iawn. Ar hyn o bryd roedd perthynas waith dda iawn gyda'r Arweinwyr Grŵp eraill. Pe byddai unrhyw broblemau'n codi o fewn y grŵp, byddai'n gweithio gyda'r 2 Ddirprwy Arweinydd Grŵp a Chwipiau'r Grwpiau i ddarparu cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant yn ôl yr angen.

Aeth ymlaen i ddweud bod y Protocol Datrys Anghydfodau Lleol wedi gweithio'n dda iawn a’i fod wedi’i ddefnyddio'n llwyddiannus yn y gorffennol i osgoi trosglwyddo adroddiadau i OGCC.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Stewart am gyfarfod â'r Pwyllgor a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gwrdd yn anffurfiol ar ôl cyfnod yr haf.

Y Cynghorydd Chris Holley

- Hyfforddiant

Dechreuodd y Cynghorydd Holley drwy ddweud mai dim ond ychydig dros 8 mis sydd ers yr Etholiadau Llywodraeth Leol a bod yr aelodau newydd yn y cyfnod dysgu o hyd. Roedd bod yn Gynghorydd yn brofiad unigryw ac nid yw'n rhywbeth y gellid ei ddysgu'n gyflym. Fodd bynnag, teimlai y gellid gwneud mwy i ddarparu manylion ychwanegol i Gynghorwyr ynghylch rôl y Pwyllgor Safonau.

Er bod y templed a ddarparwyd gan y Cynghorydd Holley'n amlinellu'r hyfforddiant a gyflawnwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn unig, gellir gweld holl gofnodion hyfforddiant yr holl Gynghorwyr trwy gyrchu proffiliau'r Cynghorwyr unigol ar wefan y cyngor www.abertawe.gov.uk/cynghorwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Holley y byddai'n croesawu cyfarfod â'r Pwyllgor cyfan, ac nid gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn unig.

- Problemau gyda'r Côd Ymddygiad

Dywedodd y Cynghorydd Holley fod prif broblemau’r Côd Ymddygiad yn ymwneud â chysylltiadau teuluol, materion gweithdrefnol a'r anhawster y mae rhai Cynghorwyr wedi'i brofi o ran datgan buddiannau yn ystod cyfarfodydd y cyngor, yn enwedig mewn perthynas â chyfarfodydd cyllideb a phan oedd diswyddiadau staff yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, dywedodd fod ymddygiad cyffredinol Cynghorwyr wedi gwella'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf.

O ran Protocol Datrys Anghydfodau Lleol, dywedodd y Cynghorydd Holley y byddai wedi bod yn dda pe bai’r protocol wedi’i gyflwyno amser maith yn ôl. Ers ei gyflwyno, ni fu llawer o gyfleoedd i’w ddefnyddio gan fod ymddygiad Cynghorwyr wedi gwella dros y blynyddoedd.

Roedd y Cynghorydd Holley yn cyfaddef bod ei rôl fel Arweinydd Grŵp, a oedd yn cynnwys Aelodau Annibynnol, yn gallu bod yn heriol ar adegau, fodd bynnag, roedd yn rhaid iddo fod yn ddiplomyddol ac yn ymwybodol o sensitifrwydd materion ni waeth beth fo'u pleidiau gwleidyddol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Holley am gyfarfod â'r Pwyllgor a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gwrdd yn anffurfiol ar ôl cyfnod yr haf.

**37 Ffurflen gais ar gyfer gollyngiad ac arweiniad.**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i adolygu Ffurflen Ollyngiad y Cynghorwyr.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ffurflen ollyngiad ddiwygiedig a'r arweiniad cysylltiedig a amlinellwyd yn Atodiad 2.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.48 am

**Cadeirydd**